# Is-bwyllgorau ar Reoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2012

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 29 Ionawr 2013** |
| Amser: | **09:02 - 10:54** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
<insert link here>

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Mark Drakeford (Cadeirydd)**<br>**Vaughan Gething**<br>**Elin Jones**<br>**Darren Millar**<br>**Lynne Neagle**<br>**Nick Ramsay**<br>**Alun Ffred Jones**<br>**Eluned Parrott**<br>**David Rees**<br>**Ken Skates** |
| Tystion: | **Simon Curtis, Equity**<br>**Sian Gale, BECTU**<br>**Dr Sharon Hopkins, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**<br>**Dr Hugo van Woerden, Iechyd Cyhoeddus Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Lara Date (Clerc)**<br>**Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Philippa Watkins (Ymchwilydd)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r is-bwyllgorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Menter a Busnes i'r cyfarfod.

1.2 Darllenodd y Cadeirydd lythyr gan y BBC yn dilyn eu sesiwn tystiolaeth lafar ar 22 Ionawr. Roedd y llythyr yn ymddiheuro am wall yn eu tystiolaeth.

1.3 Nododd aelodau'r is-bwyllgorau y llythyr o ymddiheuriad a'r cywiriad.

## 2. Y Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2012 - Sesiwn Dystiolaeth 3

2.1 Clywodd yr is-bwyllgorau dystiolaeth gan BECTU ac Equity.

2.2 Cytunodd y tystion i ddarparu rhagor o wybodaeth ar sut mae'r eithriad i'r ddeddfwriaeth mangreoedd di-fwg yn gweithio yn Lloegr.

2.3 Cytunodd Equity i ddarparu ei ffigurau aelodaeth am y blynyddoedd diwethaf i aelodau'r is-bwyllgorau, iddynt weld pa gyfran o'i aelodau sy'n Gymry.

## 3. Y Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2012 - Sesiwn Dystiolaeth 4

3.1 Clywodd yr is-bwyllgorau dystiolaeth gan y Bwrdd Iechyd Lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

3.2 Cytunodd Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddarparu gwybodaeth i aelodau'r is-bwyllgorau ar y canlynol:

- Cyfraddau rhoi'r gorau i ysmygu yng Nghymru a Lloegr ers 2007, fesul grŵp oed;
- Ffigurau yn dangos newidiadau i lefelau ysmygu yng Nghymru a Lloegr ers cyflwyno'r gwaharddiad ysmygu.

**TRAWSGRIFIAD**
Trawsgrifiad o'r cyfarfod.